# Tynnu sylw at chwarae gemau ar-lein

Gemau fideo sy'n caniatáu i chwaraewyr o bob cwr o'r byd gysylltu a rhyngweithio â'i gilydd dros y rhyngrwyd mewn amser real yw gemau amlchwaraewr ar-lein. Mae'r gemau hyn yn gallu amrywio o brofiadau cydweithredol, lle mae chwaraewyr yn dod at ei gilydd i gyflawni nodau cyffredin, i fformatau mwy cystadleuol, lle maen nhw'n cystadlu yn erbyn ei gilydd i geisio ennill. Fel arfer, mae gofyn i chwaraewyr greu cyfrifon, ymuno â gweinyddion ac weithiau ffurfio timau. Mae elfennau ychwanegol ar gael hefyd, fel tablau arweinwyr, cyflawniadau a dewisiadau talu-i-uwchraddio.

## Risgiau posibl

### Cysylltu â dieithriaid

Mae llawer o gemau ar-lein yn cynnig dulliau aml-chwaraewr, lle gall chwaraewyr gysylltu â defnyddwyr eraill ar y platfform. Gall hyn gyflwyno risgiau fel dod ar draws iaith sarhaus, bwlio drwy'r elfen sgwrsio neu ymddygiad aflonyddgar fel dinistrio pethau mae eich plentyn wedi'u creu yn y gêm.

### Gorwario mewn gemau

Mae'r rhan fwyaf o gemau yn cynnig cyfleoedd i brynu, lle mae arian go iawn yn cael ei ddefnyddio i brynu eitemau yn y gêm. Nid yw'r eitemau hyn o fudd i'r gêm ei hun yn aml iawn. Maen nhw'n rhan o ddyluniad y gêm er mwyn annog defnyddwyr i wario mwy ar y platfform.

### Mynediad i gynnwys amhriodol

Mae cynnwys y gemau yn amrywio'n fawr ac mae'r sgoriau oedran yn adlewyrchu pa mor addas yw'r cynnwys. Nid yw'r rhan fwyaf o gemau yn ei gwneud yn ofynnol i chwaraewyr brofi eu hoedran, felly mae'n bosibl y bydd chwaraewyr iau yn dod ar draws cynnwys anaddas os ydyn nhw'n chwarae gemau uwchlaw'r oedran a argymhellir.

## Cyngor ymarferol

### Siarad am risgiau

Siaradwch â'ch plentyn am y risgiau o gyfathrebu â dieithriaid a'u hannog i ddweud wrthych a ydyn nhw'n cael profiadau sy'n peri pryder wrth chwarae ar-lein.

### Siarad am arian

Siaradwch â'ch plentyn am brynu eitemau yn y gêm i sicrhau eu bod yn deall bod arian go iawn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn. Gallwch hefyd osod gosodiadau prynu ar gyfer yr ap perthnasol ar eich dyfais.

### Gwirio sgoriau oedran ac addasrwydd

Neilltuwch amser i ddod yn gyfarwydd â'r gemau y mae eich plentyn yn eu chwarae, gan ddefnyddio'r sgôr oedran a'r disgrifyddion cynnwys fel arweiniad. Gallwch ddefnyddio rheolaethau rhieni er mwyn helpu i reoli cynnwys hefyd.

Am ragor o wybodaeth

Hwb®

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2025 WG51495